Telerau Cyfrifoldeb – Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, dyfarniadau a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio tâl ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, darparu cynllun pensiwn, llesiant, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu'r Gymraeg.

Bydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn rhoi cyngor ar ddatblygu sefydliadol strategol, sicrhau bod strategaeth glir ar waith, cynllunio'r sefydliad mewn modd effeithiol a fforddiadwy, a rheoli mentrau newid pwysig yn effeithiol, gyda'r bwriad o sicrhau gweithlu arloesol, sy'n perfformio'n dda ac yn uchel eu cymhelliant. Bydd y Pwyllgor hefyd, ar ran y Bwrdd, yn goruchwylio'r broses o ymgorffori rhagoriaeth mewn gofal cwsmeriaid, fel elfen allweddol o ddiwylliant y sefydliad.

Cyfrifoldebau'r Pwyllgor

Dyfarnu

- Goruchwylio'r strategaeth ddyfarnu gyffredinol, y cynllun gwerthuso swyddi, a'r telerau ac amodau ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Pennu'r strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol.
- Adolygu'r perfformiad yn erbyn amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr, ynghyd ag asesiad y Prif Weithredwr o berfformiad y Tîm Gweithredol.
- Cymeradwyo unrhyw ddyfarniadau tâl blynyddol a chyflog ar gyfer y Prif Weithredwr, gan ddilyn cyngor gan Gadeirydd y Bwrdd.
- Cymeradwyo unrhyw ddyfarniadau tâl blynyddol ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol, sydd y tu allan i drefniadau bargeinio ar y cyd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Polisi

- Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod polisïau pobl ac amodau cyflogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Trysorlys ei Mawrhydi a Swyddfa'r Cabinet fel y bo'n briodol.

Talent ac Olyniaeth

- Adolygu dulliau cynllunio olyniaeth y Tîm Gweithredol a materion gwydnwch sefydliadol cysylltiedig, yn cynnwys hyfforddiant a datblygiad.
- Goruchwylio strwythur y Tîm Gweithredol a'r recriwtio i'r tîm hwn.

Pensiynau

- Adolygu adroddiadau o'r Is-bwyllgor Pensiynau.
- Cadw golwg ar Gronfa Bensiynau Asiantaeth yr Amgylchedd, ynghyd â rheoli hawliau ac atebolrwydd a drosglwyddir o ran gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol ac atebolrwydd gwasanaethau blaenorol a etifeddwyd.
- Cyfrifoldeb dirprwyedig gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Datganiad Polisi Dewisol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – i ystyried a chymeradwyo materion sy'n ymwneud â disgresiwn cyflogwyr o dan reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Trefniadau Ymadael

- Ystyried a chadarnhau ceisiadau ymadael a thaliadau diswyddo'r Tîm Gweithredol.
- Adolygu trefniadau ymadael ar gyfer yr holl staff eraill, yn cynnwys monitro taliadau diswyddo a rhoi sicrwydd a chydymffurfiaeth fel y nodir yn y canllawiau perthnasol.

Llesiant, Iechyd a Diogelwch

- Craffu a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod strategaeth, cynlluniau a pholisïau effeithiol ar waith.
- Adolygu risgiau allweddol a monitro llesiant, iechyd a diogelwch i sicrhau rheolaeth effeithiol gan y Tîm Gweithredol, gan roi gwybod i'r Bwrdd am unrhyw faterion arwyddocaol.

Y Gymraeg

- Sicrhau'r Bwrdd fod y sefydliad yn cyflawni ei uchelgeisiau o ran dod yn sefydliad dwyieithog.
- Ystyried gofynion y Comisiynydd a chynlluniau ac ymatebion y Bwrdd Gweithredol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Sicrhau'r Bwrdd fod y sefydliad yn cyflawni ei uchelgeisiau o ran dod yn sefydliad cynhwysol.
- Ystyried gofynion y Comisiynydd a chynlluniau ac ymatebion y Tîm Gweithredol.

Gofal Cwsmeriaid

- Sicrhau'r Bwrdd fod y sefydliad yn ymgorffori diwylliant o ragoriaeth mewn gofal cwsmeriaid.

Datblygu Sefydliadol

- Goruchwylio strategaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r sefydliad, ei dimau a'i bobl i sicrhau eglurder diben, arweinyddiaeth effeithiol a newid diwylliannol, a rhoi gwybod i'r Bwrdd am gynnydd.
- Fel rhan o'r gwaith o weithredu'r strategaeth:
  - adolygu'r arolwg pobl blynyddol a chamau gweithredu a chynnydd y Tîm Gweithredol
  - rhoi cyngor ar ddatblygu cynllun gweithlu strategol
  - rhoi cyngor ar newid diwylliannol, datblygu arweinyddiaeth, cynllunio sefydliadol a newid strategol
  - goruchwylio newid ar draws y sefydliad, gan graffu ar gynlluniau, risgiau a chynnydd
- Monitro ac adolygu'r broses gyflawni a manteision achosion busnes allweddol a'r cynllun gwireddu buddion fel rhan o werthusiad ôl-freinio

Arall

- Ystyried unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â dyfarnu, telerau ac amodau, a rheoli pobl sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth gan y Cadeirydd neu'r Bwrdd.
- Sicrhau bod Polisi Diogelu Cyfoeth Naturiol Cymru, i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, yn addas i'r diben.

Aelodaeth

Bydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn cynnwys pedwar o aelodau'r Bwrdd.

- Bydd aelod o'r Bwrdd yn cadeirio'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth.
- Bydd y Cadeirydd yn penodi aelodau o'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth.
- Ystyrir bod cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn gwneud cworwm os bydd tri aelod o'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn bresennol. Fodd bynnag, trefnir cyfarfodydd i sicrhau bod pedwar aelod yn gallu bod yn bresennol a diben y cworwm o dri fydd hwyluso amgylchiadau eithriadol sy'n digwydd 'ar y dydd'.
- Bydd y Cadeirydd yn aelod *ex officio* o'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth.

Cyfarfodydd

- Bydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth fel arfer yn cyfarfod yn chwarterol. Gall Cadeirydd y Pwyllgor gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
- Bydd Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl fel arfer yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth

heblaw am drafodaethau sy'n ymwneud â materion sy'n effeithio arnynt hwy'n bersonol.
- Gall Cadeirydd y Bwrdd neu'r Prif Weithredwr ofyn i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth gynnal cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol lle mae cyngor y Pwyllgor yn ddymunol.
- Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu yn darparu swyddogaeth ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth.

Adrodd

- Gwneir cofnodion ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth. Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ôl yn ffurfiol yn ysgrifenedig, drwy ei gofnodion, a ddosberthir i aelodau'r Bwrdd yn unig.
- Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd, ac ar unrhyw faterion arwyddocaol, wrth iddynt godi.

Adolygu

- Yn unol â'r gweithdrefnau a ddilynir gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau eraill, bydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau Cydnabyddiaeth yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd blynyddol. Bydd hwn yn rhan o'r adrodd blynyddol i'r Bwrdd.

Aelodau:

Paul Williams (Cadeirydd)

Nigel Reader

Zoë Henderson

Karen Balmer

Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru (*ex officio*)

Yn bresennol:

Prif Weithredwr

Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl

Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, yn ôl y gofyn

Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyfathrebu Allanol, yn ôl y gofyn

Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid, yn ôl y gofyn